

# Mae popeth yn gwasanaethu

*“Cryna, O ddaear, ym mhresenoldeb yr Arglwydd, ym mhresenoldeb Duw Jacob, sy'n troi'r graig yn llyn dŵr a'r callestr yn ffynhonnau.” (adn.7–8)*

## Beth am ddarllen Salm 114:1–8 ac yna myfyrio

Mae'r peryglon a amlinellir gan Toynbee yn her wirioneddol i'r Eglwys heddiw. Fe allwn encilio i ddoe a bod yn bobl ddoe gan fwynhau adlewyrchu ar yr hyn yr oeddem. Gallwn aros uwchben y dyfodol gan obeithio y bydd yna newid rhyw ddiwrnod, ond yn gwneud dim ymdrech i newid yn awr. Gallwn encilio i brofiadau cyfriniol gan osgoi wynebu her y funud. Dim ond wrth i ni ymestyn a meddiannu yr adnoddau sydd gan y nefoedd i'w cynnig i ni y medrwn wrthwynebu yr ymosodiadau sydd yn awr ar yr eglwys gan ennill y rhai sydd yn ein herio tra, ar yr un pryd, dystio i'r hyn sydd yn ein meddiant.

Yr wyf yn gofyn i ti sydd yn rhan o'r Eglwys Gristnogol nid yn gymaint i sefyll yn yr argyfwng hwn, ond i'w ddefnyddio. Nid yw y ffydd Gristnogol erioed wedi addo na fyddem yn dioddef, na fyddem yn cael ein herlid, ond yn hytrach yn ein dysgu sut i gymryd meddiant o'r gwaethaf y gall y byd ei daflu atom gan ei droi er llesâd. Yng nghalon ein ffydd y mae'r person a feddiannodd, hyd yn oed, Calfaria gan ei droi yn fore'r Pasg. Nid dioddef y groes yn unig a wnaeth ein Harglwydd, ond ei ddefnyddio.

Mae'r Eglwys heddiw yn yr un sefyllfa â'r Eglwys Fore. Mae'n cael ei herlid. Mae rhai yn cael eu herlid yn gorfforol ond mae'r erledigaeth sydd yn effeithio ar ein sefyllfa ni yn erledigaeth mwy deifiol. Mae'r erledigaeth yma yn ein hanafu bron yr un faint â chyllyll a chleddyfau. Yr ydym yn cael ein cyhuddo o fod yn amherthnasol, yn perthyn i oes sydd wedi mynd heibio. Beth mae'r erledigaeth yma yn ei wneud i ni? A yw yn ein gorfodi i encilio neu yn ein gorfodi i weithredu? A yw y gwawd yn peri i ni fynd o dan y ddaear neu i feddiannu y ddaear fel y dynion a'r gwragedd a sylfaenodd yr Eglwys yn Antiochia. Fe all y gwawd ein helpu ni, ein cynorthwyo i gyffesu ein camweddau, ein cynorthwyo i ailddarganfod yr ynni sydd gan Dduw ar ein cyfer gan esgymuno popeth amherthnasol a'n gadael gyda'r hyn sydd yn berthnasol – grym ein Gwaredwr.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Actau 16:13–40; 2 Cor.1:2–11; Ioan 16:21

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut bu i'r cernodiau a ddioddefodd Paul ei wasanaethu?
2. Sut all dioddefaint ddwyn daioni?

## Gweddi

O Dad, yr wyf yn gweld fod yna fywyd buddugoliaethus ac yr wyf am ei feddiannu. Cynorthwya fi i edrych ar y gwrthwynebiad a'i droi yn gyfle newydd. Wrth i mi dy ddilyn di, gall croes fod yn gyfle i wasanaeth. Yn enw Iesu. Amen.